

Dyddiad: 25/11/2020

Annwyl Riant neu Ofalwr,

Ynghylch: Cyswllt ag achos a gadarnhawyd o COVID-19 ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe.

Mae gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru yn olrhain pawb sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19 (y Coronafeirws).

Nodwyd bod eich plentyn yn **gyswllt o achos a gadarnhawyd o COVID-19** a bydd nawr angen iddo/i hunanynysu am 14 diwrnod o'r 18/11/2020. Drwy nodi cysylltiadau:

- **pob disgybl ym mlwyddyn 7**
- **a'r disgyblion sydd yn teithio ar fws 639 yn unig,**

a gofyn iddynt hunanynysu am 14 diwrnod, byddwn yn lleihau'r risg bosibl o ledaenu COVID-19 o'r cysylltiadau hynny i'w teulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach.

Mae'r cyngor ar hunanynysu yn ei **gwneud yn ofynnol i'ch plentyn aros gartref, peidio mynd allan i wneud ymarfer corff, ymweld â siopau, teulu na ffrindiau, na mynd i fannau cyhoeddus eraill.**

Peidiwch â gwahodd pobl i'ch tŷ. Ceir rhagor o wybodaeth am hunanynysu yn y ddolen ar waelod y llythyr hwn.

Os bydd eich plentyn yn aros yn iach ni fydd angen i aelodau eraill yr aelwyd ynysu a gallant barhau â'u gweithgareddau arferol. Os bydd eich plentyn yn dal yn iach ar ddiwedd y cyfnod hunanynysu o 14 diwrnod, gall **ddychwelyd i'r ysgol ac i'w weithgareddau arferol eraill ar ddydd Iau y 03/12/20.**

Ni ellir lleihau'r cyfnod o 14 diwrnod o hunanynysu trwy gael prawf. Mae'r prawf ar gyfer pobl sy'n datblygu symptomau yn unig.

Er mwyn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19, mae yna bethau y gall pawb yn eich teulu eu gwneud i helpu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- golchi eich dwylo â dŵr a sebon yn aml, am o leiaf 20 eiliad
- defnyddio hylif diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael
- golchi eich dwylo cyn gynted ag y byddwch gartref
- gorchuddio eich ceg a'ch trwyn â hances neu eich llawes (nid eich dwylo) pan fyddwch yn peswch neu'n tisian
- rhoi hancesi yn y bin ar unwaith ar ôl eu defnyddio a golchi eich dwylo wedyn

Cadwch lygad am symptomau COVID-19 yn eich plentyn, sef:

- Peswch newydd neu gyson
- Tymheredd uchel



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



- Colli synnwyr arogleuo neu synnwyr blasu, neu newid iddynt

Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw rai o'r symptomau hyn, hyd yn oed os na fyddant yn ddifrifol:

- Trefnwch brawf iddo drwy ffonio 01639 862757 neu 119 neu drwy fynd i'r porth ar-lein: <https://www.nhs.uk/ask-for-a-coronavirus-test>
- **Rhowch wybod i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe** ei fod yn teimlo'n anhwylyd gyda symptomau COVID-19 a'ch bod wedi gofyn am brawf
- Dylai eich plentyn barhau i hunanynysu
- Dylai pawb arall sydd ar yr aelwyd ynysu am 14 diwrnod o'r adeg y datblygodd eich plentyn symptomau
- Peidiwch ag ymweld â meddygfa, fferyllfa nac ysbyty ond os bydd angen cyngor meddygol arnoch ffoniwch y GIG ar 111 neu ffoniwch eich meddyg teulu; os bydd argyfwng meddygol ffoniwch 999
- Os bydd angen cyngor meddygol arnoch ar gyfer symptomau COVID-19 neu am reswm arall, dywedwch wrth y gweithiwr gofal iechyd bod eich plentyn yn gyswllt achos o COVID-19 a'i fod yn hunanynysu
- Dilynwch y cyngor a roddir pan fydd eich plentyn yn cael canlyniadau ei brawf

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth Profi Orlhain Diogelu ar gael yma

<https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws>

Mae rhagor o wybodaeth am symptomau a hunanynysu ar gael yma <https://llyw.cymru/gwiriad-olrhain-cysylltiadau-dyddiol-symptomau-canllawiau-chymorth>

I gael gwybodaeth gyffredinol am COVID-19 <https://llyw.cymru/amddiffyn-eich-hun-ag-eraill-rhag-y-coronafeirws>

Gall gwiriwr symptomau ar-lein COVID-19 ddweud wrthyhych a oes angen help meddygol arnoch a'ch cyngori ynghylch beth i'w wneud <https://llyw.cymru/oes-angen-help-meddygol-arnoch-am-y-coronafeirws>

Bydd eich plentyn yn gallu ymuno a'i holl wersi gan athrawon Bryn Tawe ar lwyfan Teams am y cyfnod hunan ynysu. A wnewch chi sicrhau bod eich plentyn yn mynychu ei wersi os gwelwch yn dda? Os oes unrhyw anhawster e.e. angen benthyg teclyn digidol neu gysylltiad gyda'r wê, cysylltwch gyda Mrs Nerys Vaughan (VaughanN9@hwbcymru.net) neu Mr Omar Bechar (BecharO@hwbcymru.net) i wneud trefniadau. Cysylltwch gyda ni os oes unrhyw gwestiwn pellach.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur

